

**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri
Cynhelir ar ddydd Llun 14 Hydref am 5.45yh
yng Nghanolfan Wardeiniaid Pen y Pass, Llanberis**

Presennol - Aelodau:

Mr Edwin Noble	Mr Dafydd Gwyndaf
Mr David Firth	Mr John Gladston
Mr Mark Jones	Mr Robin Parry
Mrs Fiona Davies	Mr Paul Williams
Mr Richard Williams	Mr Tim Jones
Mr Arthur Davies	Mr Dafydd P Jones

Swyddogion / Siaradwyr: Peter Rutherford (APCE) Bethan W Jones (APCE)
Adam Daniel (APCE) Rhian P Williams (APCE)
Rhydian Roberts (APCE) Rhys G Roberts (CG)

Croesawodd EN yr holl aelodau a Swyddogion / siaradwyr i'r cyfarfod heno.

1. Ymddiheuriadau – Maggie Barrie.

Esboniodd PR ein bod wedi colli dau aelod FfMLI o'r grwpiau defnyddwyr a gofyn a oedd gan yr aelodau unrhyw argymhellion ar gyfer dirprwyon. Byddai'n ddefnyddiol cael rhywun o'r frawdoliaeth padlo/canŵio (a mynediad at ddŵr) a rhywun o'r Bartneriaeth Awyr Agored.

Mae'r aelodau'n argymhell Pete Catterall – canŵio ac Ailish Roberts – Partneriaeth Awyr Agored.

Byddai PR yn cysylltu â nhw i ofyn a hoffent ddod yn aelodau neu efallai y byddan nhw'n argymhell rhywun arall o'u sector. Esboniodd y gallai aelodau gael eu cyfethol os bydd angen. Byddai angen i'r Awdurdod gadarnhau unrhyw aelodaeth.

2. Cofnodion blaenorol

Cymeradwywyd

3. Materion yn codi

Dim

4. Gohebiaeth

i) Llythyr a dderbyniwyd gan grŵp lleol yn Rhyd ynghylch mynediad i eiddo'r Parc Cenedlaethol ym Mhlan Tan y Bwlch. **Gweler eitem 6**

5 Diweddariad o Lwybr Arfordirol Cymru Gyfan (Gwynedd)

Esboniodd RR mai ef oedd Swyddog Llwybr Arfordir Cymru Gyfan ac ef oedd yn gyfrifol am adran Gwynedd. Mae'r llwybr yn rhedeg o Gas-gwent i Sir y Fflint. Rhennir hyd y llwybr cyfan yn 5 rhan gyda rhan Gwynedd yr hiraf yn 180 milltir (mae hyn yn hirach na Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa). O fewn Gwynedd roedd hyn yn ymestyn o Fachynlleth i Aberdyfi ac i fyny ac o amgylch yr arfordir o amgylch Pen Llŷn ac ymlaen tuag at ac yn gorffen yn Llanfairfechan lle mae'n ffinio â'r rhan nesaf sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir yng Nghonwy.

Mae gwaith LIACC yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gweinyddu'r dyraniad cyllideb drwy gynlluniau gwaith cymeradwy.

Roedd wedi bod yn Swyddog Llwybr yr Arfordir ers 2003 ac roeddent wedi wynebu llawer o heriau ers hynny ac roeddent wedi cael y dasg gan Lywodraeth Cymru i gwblhau hyn erbyn 2012 i gyd-fynd â'r Gemau Olympaidd a'r Jiwbilî Aur. O ystyried faint o waith sydd ei angen, roedd hyn yn anodd. Er bod y rhan fwyaf o adrannau wedi'u cwblhau, mae darnau o hyd a oedd angen eu cymodi gan nad oedd rhai yn gwbl arfordirol eu natur ac roedd angen deialog â thirfeddianwyr. Ar hyn o bryd roeddent nhw'n edrych ar ardal Dinas Dinlle i Drefor gan fod yr adran hon ar hyn o bryd yn dilyn ffordd A nad oedd yn hollol arfordirol.

Roeddent wedi creu 21 milltir o Hawliau Tramwy Cyhoeddus newydd a hefyd wedi cwblhau gwaith uwchraddio a gwella amrywiol i filltiroedd lawer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus eraill sy'n bodoli eisoes.

Roedd angen cynnal a chadw'r llwybr yn gyson hefyd a nawr yn 2024 roedd angen adnewyddu dodrefn fel gatiâu, ffensio neu gamfeydd ac nid tasg hawdd oedd hon.

Dangosodd amryw o enghreifftiau o welliannau lle'r oedd dodrefn wedi'u huwchraddio i safonau modern. Roedd newid dodrefn bob amser yn gofyn am drafodaeth gyda thirfeddianwyr – fel arfer pan ddisodlwyd y camfeydd gan gatiâu neu gatiâu mochyn i wneud y llwybr yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr llai abl. Ymgwymerwyd â rhannau newydd o'r llwybr drwy ddefnyddio darpariaethau Deddf Priffyrdd – Adran 25. Yn ei brofiad o roedd y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn gadarnhaol am y llwybr. Roedd trafodaethau yn ardal Porth Penrhyn wedi golygu llawer iawn o drafod a gwaith sylweddol ar y safle hyd at eleni – pan welwyd cwblhau'r gwaith ac roedd yr adran newydd wedi agor yn ddiweddar ar gyfer defnydd y cyhoedd.

Roedd yr adran hon hefyd yn gofyn am waith sgrinio ychwanegol o'r fath er mwyn osgoi tarfu ar ddwysedd uchel poblogaethau adar sy'n gaeafu ar safle Traeth Lafan gerllaw.

Dangosodd sleidiau perthnasol i'r gwaith gosod y bont newydd yn Nhonfannau a oedd yn ddatblygiad sylweddol ar y llwybr i'r gorllewin o Dywyn.

Roedd y prosiect yn wynebu rhai bygythiadau mawr fel erydiad arfordirol a chodiadau yn lefel y môr. Roedd stormydd y gaeaf bob amser yn arwain at golli llwybrau lle'r oeddent wedi ildio i glogwyni a erydu arfordirol.

Mae'r llwybr cyfan hefyd wedi cael ei nodi ar 'Google trek' ac mae ar gael ar-lein ar ffurf tebyg i 'gweld y stryd'.

O ran cyllid ar gyfer cyllideb 2024-2025 mae oddeutu £90k gyda £52k wedi'i ddyrannu ar gyfer torri a strimio sylfaenol.

Roeddent hefyd yn treialu rhai coridorau bioamrywiaeth ychwanegol a chynllun Llywodraeth Cymru i ehangu'r gwaith llwyddiannus hwn.

O ran marchnata, y tîm yn CNC sy'n gyfrifol am yr agwedd hon ac roeddent yn gweithio'n agos gyda busnesau lleol ar yr agwedd hon. Roedd amcangyfrifon amrywiol ar faint mae'r llwybr hwn yn cyfrannu at economïau lleol a chenedlaethol. *Gofynnodd ED a oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau.*

Gofynnodd MJ a oedd cynlluniau i ddatblygu llwybrau trafnidiaeth gynaliadwy llinnellol yn ôl ac ymlaen.

Atebodd RR bod rhywfaint o wybodaeth am gynllunio llwybrau a chlodiant gwefan CNC. Fodd bynnag, yn ôl ei natur a'i leoliadau, nid oedd y llwybr ar gael yn aml ar dtrafnidiaeth gyhoeddus. Bu menter ffonio bws ym Mhen Llŷn ond yn anffodus roedd y ddarpariaeth hon yn gyfyngedig iawn a bu'n rhaid i bobl gynllunio ymlaen llaw pryd bynnag y bo modd.

Dywedodd PW pe bai'r gyllideb bresennol yn cael ei dyrannu gan Lywodraeth Cymru, yna roedd perygl y gallai hyn ddisgyn i'r Awdurdodau Lleol yn y pen draw. A'r Awdurdod Lleol oedd â chyfrifoldebau statudol dros CGaHT.

Dywedodd RR, gan ei fod yn cael ei neilltuo ond ei bod yn anodd rhagweld sut y byddai hyn yn chwarae allan yn y dyfodol yn enwedig os oedd CNC o dan bwysau ariannol i'w ariannu'n uniongyrchol o'u cyllideb fewnol. Roedd yn gywir bod gan Awdurdodau Lleol (yn eu hachos Gwynedd) gyfrifoldeb statudol dros bob CGaHT yn eu siroedd priodol.

Dywedodd PR - drwy'r Cadeirydd, fod mater y gyllideb wedi'i godi gan y Fforymau Lleol ar ddechrau'r prosiect hwn ac y byddai hyn nid yn unig yn gofyn am gyllideb ddatblygu ond hefyd cyllideb ar gyfer ei gynnal a chadw tymor hir ac na ddylai hyn fod yn faich ar yr awdurdodau lleol neu'r trethdalwyr lleol pan oedd hyn yn rhan o ased cenedlaethol.

Gofynnodd MJ faint o filltiroedd oedd ar gael ar gyfer defnyddio cadair olwyn.

Dywedodd RR, o ystyried bod llawer o'r llwybr wedi'i gyfyngu'n ddifrifol gan y tir, yna yn ddiofyn dim ond hyd cyfyngedig oedd ar gael i ddefnyddwyr anabl ond eu bod yn edrych ar rai adrannau byrrach a chysylltiadau lle gallai fod potensial i ehangu'r ddarpariaeth hon.

Pan gomisiynwyd yr adolygiad diweddar gan Hugh Iranca Davies AC, dywedodd PR bod rhan o ymateb aelodau FfMLI (gan yr is-grŵp FfMLI ar y cyd) ar y pryd ac un o'r awgrymiadau oedd y dylid archwilio'r ddarpariaeth ar gyfer pob adran gallu.

Esboniodd RR ymhellach eu bod hefyd wedi gosod cownteri 12 ar hyd y llwybr i roi gwell dealltwriaeth iddynt o'r defnydd.

Dywedodd RP, pe bai'r ffigurau'n sylweddol yna mae'n siŵr y dylai cyllideb ddigonol ddilyn.

Dywedodd RR mai dyna'r peth delfrydol ond fel gyda phob cyllid cyhoeddus ni chafodd hyn ei warantu. Roedd hyn yn fwy anodd pan oedd llawer o'i ddodrefn bellach o leiaf 10 mlwydd oed ac roedd angen eu disodli. Roedden nhw hefyd yn wynebu prinder defaid i bori rhannau o'r llwybr arfordirol oedd yn siomedig ac wedyn yn dod yn fwy costus i'w cynnal.

Dywedodd JG y gallai fod yn anodd i ddefnyddwyr cadair olwyn iau ddefnyddio'r adran Penrhyn newydd.

Dywedodd RR eu bod wedi gwneud y gwaith gorau y gallent o dan yr amgylchiadau ac roedd yn profi i fod yn dir anodd iawn ond byddai bob amser yn cael ei adolygu fel unrhyw ran o'r llwybr.

Gofynnodd GJ a oedd adrannau'r LIACC ledled Cymru wedi mabwysiadu'r un safonau o ran dodrefn neu a oedd hyn yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol benderfynu.

Cadarnhaodd RR fod y safonau yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws Cymru a osodwyd gan CNC oedd yn cydymffurfio â'r Safonau Prydeinig diweddaraf. Diolchodd EN i RR am ei amser a'i ddiweddariad ar yr LIACC.

6. Trafodaeth ynglŷn ag eitem4i - Mynediad i'r coetir a Llyn Mair ger Plas Tan y Bwlch

Eglurodd PR fod gwerthiant gwreiddiol eiddo'r PC yng Nghynllun Tan y Bwlch yn cynnwys Llyn Mair a'r coetir PTyB o'i amgylch. Roedd yr ardaloedd hyn yn boblogaidd iawn gyda defnyddwyr lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd ac roedd y grwpiau hynny'n dymuno mynegi eu pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli amwynder cyhoeddus pe bai'r ardaloedd hynny, sy'n eiddo i'r Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd, yn cael eu colli o dan berchnogaeth newydd a'u bod yn dymuno dod â'r mater i sylw aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. Roeddent hefyd wedi ysgrifennu at yr Awdurdod.

Roedd yn bwysig ystyried nad oedd gan yr ardal Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac nad oedd yn dir mynediad CGHT. Caniatwyd mynediad ar sail *de facto*. H.y. caniateir trwy ganiatâd ond nid gan unrhyw hawl gyfreithiol.

Eglurodd PR ymhellach y gofynnwyd iddo ers hynny adolygu'r ddarpariaeth mynediad a gofynnwyd iddynt archwilio'r potensial ar gyfer neilltuo rhannau o'r coetir a'r llyn i sicrhau mynediad cyhoeddus.

Ychwanegodd TJ ychydig o gefndir i'r materion yn PTyB. Mae'r safle yn colli symiau sylweddol o arian bob blwyddyn a hefyd bod cwestiynau wedi'u gofyn ynglŷn â lle mae PTyB yn eistedd o fewn dibenion statudol y PC. A pham roedd hyn yn dal i fod yn rhan o'n portffolio eiddo.

Ar ôl adolygu'r opsiynau amrywiol roedd yr Awdurdod wedi penderfynu gosod PTyB ar y farchnad agored. Roedd rhai amcangyfrifon ar gyfer uwchraddio a chynnal a chadw'r adeiladau tua £3m. OND mae cryn ddiddordeb wedi bod yn y safle.

Cydnabu fod y sgwrs hon yn parhau ac y bydd yn cael ei thrafod eto erbyn mis Tachwedd nesaf a byddant hefyd yn trafod y darpariaethau mynediad o fewn y coetir a'r llyn a byddai'r grŵp wedyn yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn llwyr werthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan wahanol grwpiau ac unigolion ac y bydd y rhain yn cael eu hystyried ond ar ddiwedd y dydd roedd hyn yn fater o gyllid cyhoeddus.

Soniwyd hefyd bod PTyB hefyd yn chwarae rhan fawr yn y diwydiant llechi rhanbarthol na ellid ei anwybyddu.

Cadarnhaodd AD fod cynlluniau ar gyfer y gwerthiant yn mynd yn ôl i fis Chwefror ond bydd yr Awdurdod yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud o ran mynediad. Cadarnhaodd fod y rhwydwaith presennol yn cynnwys llawer o lwybrau caniatol a bod llawer yn ymestyn y tu hwnt i ddaliad tir PTyB a'u bod (ac wedi cael eu darparu) gan amrywiaeth o dirfeddianwyr.

Ychwanegodd TJ y byddai cyfle yma i bobl ddweud eu dweud ar y darpariaethau mynediad yn yr wythnosau nesaf.

Dywedodd EN mai PTyB oedd yn colli arian ac nid y coetir na'r llyn fel y cyfryw. Ychwanegodd MJ fod yna lawer o bobl a oedd yn gwbl bryderus ynghylch y mater hwn. Byddai colli hwn fel adnodd cyhoeddus yn hynod amhoblogaidd.

Ychwanegodd TJ eu bod yn edrych ar yr holl opsiynau o ran y ddarpariaeth mynediad a allai fod yn gymysgedd o bethau – tir mynediad a rhai HTC.

Dywedodd DF fod y tir hwn yn fynediad hanfodol i'r holl gymunedau lleol ac na ddylid ei golli. Mae hon yn ymestyn o Feddgelert i Drawsffynydd a Phorthmadog. Mae'r safle hwn hefyd yn boblogaidd gyda thwristiaid cerdded o Reilffordd Ffestiniog neu mewn car.

Mae'n siomedig y bydd ethos gwreiddiol PTyB a'i rôl mewn addysg amgylcheddol yn cael ei golli.

Gofynnodd JG a oedd y Plas yn ganolfan astudio yn wreiddiol.

Cadarnhaodd TJ mai dyma oedd ei rôl wreiddiol ac roedd ef ei hun wedi mynychu PTyB, ond bod marchnadoedd wedi newid a'r modd y defnyddiwyd adnoddau addysgol o'r fath. Roeddent wedi cymhwyso modelau amrywiol i'r Plas a oedd yn anffodus heb fod yn llwyddiannus a arweiniodd at ei ddirywiad graddol.

Byddent yn ceisio barn ehangach ar y darpariaethau mynediad a byddent yn gofyn am hyn ar-lein.

Dywedodd MJ pe bai hwn ar-lein yn unig y byddai llawer o bobl yn colli'r cyfle i fynegi eu barn a chynghorodd y dylai'r Awdurdod ystyried dull mwy uniongyrchol o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cael mewnbwn perthnasol.

Yr oedd TJ yn gweithfawrogi'r pwynt hwn a byddent yn cysylltu â thîm ymgysylltu'r PC ynghylch y ffordd orau o gynnal yr ymarfer hwn

Ychwanegodd EN y gallai fod yn opsiwn hefyd i'r Fforwm Mynediad Lleol ysgrifennu at yr Awdurdod i fynegi eu barn ar faterion mynediad PTyB. Naill ai gan is-grŵp neu lythyr cyffredinol gan y ddau Gadeirydd FfMLI.

Dywedodd TJ fod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r materion ac y byddent yn ymdrechu i gadw cymaint o fynediad cyhoeddus â phosibl.

Dywedodd DF ei bod yn bwysig bod barn aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei rhoi ar fater mynediad mor bwysig. Rhan o rôl y Fforwm Mynediad Lleol oedd cynyddu mynediad cyhoeddus a dylent wneud eu barn yn hysbys i'r Awdurdod a'r risg yr oedd hyn yn ei achosi i'r ddarpariaeth honno.

Gofynnodd EN a allai PR ddrafftio llythyr ar eu rhan.

Cytunwyd

Dywedodd PR y byddai'n gwneud hyn a hefyd ei fod ar yr agenda ar gyfer y Fforwm Mynediad Lleol y de (os oeddent yn cytuno) hefyd fel y gallai fynd o'r ddau Fforwm Mynediad Lleol i'r Awdurdod.

7 Cyflwyniad am Strategaeth Goed a Choedlannau Parc Eryri

Cyflwynodd Rhydian Roberts ei hun fel Swyddog Coed y PC a'i gyfrifoldeb ef oedd cyflawni'r strategaeth hon. Roedd hyn hefyd yn dod o dan Gynllun Rheoli Eryri.

Roedd hon wedi bod yn broses a ddechreuodd yn 2022 ac a oedd yn cynnwys cyfnod ymgynghori â'r undebau ffermio, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, tîrffeddiawyr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ystadau'r Goron, rheolwyr coetir masnachol a rhanddeiliaid eraill. Roedd rhywfaint o waith eisoes wedi'i wneud ar yr elfen banc carbon o fewn y PC.

Yn dilyn ymchwil amrywiol canfuwyd bod gan rai rhwng 15% fel coetir a hyd at 19.6% gyda gwrychoedd y PC orchudd coed sy'n arwyddocaol. Gyda 50% o'r gwerth hwnnw yn gonifferaidd (planhigfeydd ac ati) a 50% yn llydanddail.

Roedd Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) LIC wedi cymhlethu'r broses hon *nad oedd wedi'i derbyn yn dda ac a oedd wedi'i gohirio ers hynny ac y gellir ei haddasu*. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw gydb berthynas rhwng cynigion coetir CFfC LIC a'r hyn yr oeddent yn ceisio ei gyflawni yn strategaeth y PC.

Roedd y ddogfen hon yn ddeinamig a byddai'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae un adran berthnasol o'r Strategaeth yn ymwneud ag iechyd a lles ac maent yn cydnabod bod gan werth coetiroedd ran hanfodol i'w chwarae fel rhan o'r agenda hon. Hyn trwy ddefnyddio mynediad caniataol neu gyhoeddus o fewn coetiroedd – *gan gynnwys PTyB*. *Roeddent yn cydnabod pwysigrwydd y coetir hwn fel adnodd hamdden a minnau hefyd o ran ei werth fel banc carbon.*

Cadarnhaodd PR mai un o'r opsiynau a gynigiwyd oedd neilltuo'r coetir a'r llyn fel tir mynediad ond efallai y byddai angen darpariaeth mynediad arall hefyd. Unwaith y byddai'r grŵp mewnol nesaf yn cyfarfod yna byddent yn trafod y manylion hyn. Roedd wedi ysgrifennu papur opsiynau ar gyfer y grŵp a'r Awdurdod.

Aeth RR ymlaen a dywedodd y byddai'r Strategaeth hefyd yn effeithio ar sut yr oeddent yn ymateb i faterion Cynllunio o ran coed. Ar wahân i'n coetiroedd ein hunain – sy'n brin mewn nifer, mae Swyddogion hefyd yn barod i gynorthwyo tîrffeddiawyr gydag unrhyw benderfyniadau y maent yn dewis eu gwneud o ran rheoli coed a phlannu coed.

Roedd y Strategaeth hefyd yn cynnwys rheoli a thargedu cymorth grant tuag at ymdrin â rhywogaethau ymledol megis Rhododendron Ponticum ac eraill. Ychwanegodd nad mater gwledig yn unig yw coed, roedd llawer o fewn amgylcheddau trefol sydd yr un mor bwysig ac o werth i gymunedau lleol. *Dywedodd PW ei bod yn bwysig asesu'r hyn oedd gennym o fewn y PC o ran gorchudd coed, fodd bynnag, gofynnodd i) pam y cynhaliwyd yr ymarfer hwn a ii) a oedd gwrychoedd wedi'u cynnwys yn yr hafaliad hwn.*

Atebodd RR eu bod yn meddwl ei bod yn bwysig cael rhyw fath o asesiad gwaelodlin o'r gorchudd coed yn y PC gan nad oedd hyn wedi'i wneud yn y gorffennol a bod yr arolygon wedi datgelu rhai ystadegau diddorol. Roedd hyn hefyd yn bwysig o ran asesu ei gapasiti storio carbon. Cadarnhaodd fod hyn wedi cynnwys gwrychoedd yn eu hasesiad.

Ychwanegodd PW fod hyn yn codi cwestiwn ynghylch pwy oedd yn berchen ar y banc carbon hwnnw os oedd y coed hynny ar dir preifat. Iddo ef, y tîrfeddiannwr yn amlwg ac os felly sut y gellir ei ddefnyddio i wrthbwysu allyriadau carbon rhywun arall.

Dywedodd RR ei fod yn gwerthfawrogi hyn yn llwyr ond ei bod yn bwysig cael asesiad o gapasiti'r PC waeth beth fo'r berchnogaeth.

Soniodd DG os oedd plannu neu aildyfiant naturiol gorchudd coed o fewn ffriddoedd yn fater pwysig. Roedd Ffriddoedd yn fannau pori pwysig ac mae'r lleihad trwy blannu coed ar y math hwn o dir yn gallu cyflymu diboblogi cymunedau amaethyddol a phopeth a ddaeth gyda hyn hy colli cymuned, iaith a diwylliant. Yn anffodus, yn ei ardal ef roedd y broses hon wedi dechrau pan brynodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fwy o dir a phlannu mwy o goed mewn ardaloedd nad oeddent yn cael eu pori mwyach.

Atebodd RR ei fod yn llawn werthfawrogi pwynt DG ond nid oeddent yn argymhell plannu ardaloedd o'r fath yn gyfan gwbl ond yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn bosibl mewn rhai mannau i wella'r poblogaethau coetir presennol.

Dywedodd TJ fod safbwynt yr Awdurdod ar ein hiaith a'n diwylliant yn glir a bod y materion hyn bob amser yn ystyriaeth berthnasol yn unrhyw un o'i ystyriaethau a'i benderfyniadau.

Gofynnodd DJ a oedd unrhyw ffigurau ynghylch faint o goed a blannwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Dywedodd RR nad oedd ganddynt y data hwn ond yn dilyn yr asesiad daeth i'r casgliad bod lle i blannu mwy o goed o fewn 25% o'r ardal.

Gofynnodd PW pam fod angen ffigwr o gwbl.

Atebodd RR fod angen gwaelodlin o ryw fath fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol. Mater i dirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill bob amser fyddai penderfynu beth ac ymhle. Roedd y ffigurau'n waelodlin y byddai pawb yn ei deall waeth beth fo'u safbwynt ar goed.

Ychwanegodd DJ fod perygl unwaith y bydd y broses hon wedi dechrau y gallai fynd yn belen eira a chynyddu i rywbeth llawer mwy.

Ychwanegodd AD fod peth trafodaeth am elfen carbon tir pori.

Gofynnodd PR beth oedd yn y ddogfen ynglŷn â mynediad.

Dywedodd RR eu bod wedi amlygu pwysigrwydd coetiroedd ar gyfer yr agenda iechyd a lles a bod gan lawer Hawliau Tramwy o fewn ein coetiroedd ein hunain ond roedd yn rhywbeth cadarnhaol ac nid negyddol.

Diolchodd EN i RR am ei gyflwyniad

8. Adran Wardeiniaid ardal Gogledd - Adroddiad byr am y gwaith.

Soniodd BWJ bod yr adran wedi bod yn brysur iawn gydol y flwyddyn gyda gwaith amrywiol ar draws y gogledd – megis gwaith llwybrau troed gan gynnwys ardal Conwy o'r PC, Lôn Gwyrfa, a llawer o lwybrau'r ucheldir.

Mae'r wal ychwanegol ym Mwlich y Moch hefyd wedi'i chwblhau - y syniad yw bod yn rhaid i gerddwyr yn benodol wneud penderfyniad ymwybodol i droi a llywio eu ffordd i fyni a thrwy'r bwlch yn y wal er mwyn cael mynediad at lwybr Crib Coch. A hefyd cwtoji ar bobl sy'n dilyn ôl troed eraill trwy gamgymeriad. Roedd hwn yn syniad a drafodwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ychwanegodd PR efallai hefyd y bydd angen symud y piler sefydlog (eto) i weddu i'r trefniadau newydd fel ei fod yn fwy amlwg pa ffordd mae'n nhw'n mynd i fyni ac i lawr.

Gofynnodd MJ a oedd modd cael ffigyrau gan y Timau Achub Mynydd i asesu ei effaith o ran galwadau allan a damweiniau.

Dywedodd BWJ mai dim ond yn ddiweddar y digwyddodd hyn a'i bod yn rhy gynnar i ddweud ac y byddai'n anodd tan ddiwedd y tymor nesaf i nodi unrhyw werth ar hyn.

Ychwanegodd PR fod defnydd presennol y llwybr - a oedd yn weddol gyson, tua 20,000 y flwyddyn yn ôl eu data cownter.

Adroddodd BWJ y bu tirlithriad ar drac y Mwynwyr y byddai'n rhaid ei atgyweirio a oedd yn golygu costau sylweddol a bod gwaith yn cael ei gynllunio ond byddai angen lifft hofrennydd.

Roedd y fan ddehongli wedi bod allan sawl gwaith gyda staff a gwirfoddolwyr ar wahanol adegau. Gosodwyd hwn mewn lleoliadau amrywiol a bu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd ac roedd yr adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Roedd Wardeniaid Gwirfoddol hefyd wedi bod yn rhan o ymgyrchoedd codi sbwriel eu hunain yn ogystal â gwirfoddolwyr Caru Eryri gan gasglu dros 900kg, swm sylweddol (eto roedd hyn yn siomedig). Parhaodd y mater hwn i rwystru'r PC a'r cyhoedd ac maent yn parhau i ymdrechu i ledaenu'r negeseuon hynny ar bob cyfle.

Materion eraill yw cŵn oddi ar dennyn, gwastraff sbwriel organig a gwersylla anghyfreithlon.

Gofynnodd MJ a oedd y fenter di-blastig yn symud ymlaen.

Dywedodd BWJ fod hon bellach yn eitem a fydd yn dod yn nodwedd barhaol o fewn y gwasanaeth allan. Roedd digwyddiad COPA 1 wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Soniodd PR ei fod ef a'r Swyddog Di-blastig eisoes yn cynnal deialog gyda threfnwyr digwyddiadau ac wedi gosod her iddynt yn y dyfodol ynghylch digwyddiadau sy'n ceisio dod yn rhydd o blastig.

Soniodd BWJ fod yr adain bellach wedi mabwysiadu system CAMS newydd ar gyfer y system Hawliau Tramwy o fewn y PC. Roedd hon bellach yn system debyg i'r un a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd er mwyn gallu darllen a rhannu data rhwng sefydliadau. Roedd darpariaeth hefyd ar gyfer porth cwynion a oedd yn ddefnyddiol er bod gan yr hen system y cyfleuster hwn - efallai y byddai'n haws i'r cyhoedd adrodd ar faterion y gallwn eu rhannu â CG yn awr.

Ychwanegodd PR fod y system CAMS hon yn un a ddefnyddir gan lawer o awdurdodau lleol ar draws y DU ond bod rhannu data yn uniongyrchol yn elfen bwysig.

Argymhellodd BWJ y gallai fod yn ddefnyddiol i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i'r Swyddog sy'n rheoli hyn roi cyflwyniad byr yn y cyfarfod nesaf i roi gwell dealltwriaeth i'r aelodau ar hyn.

Dywedodd PR y byddai'n cysylltu â'r Swyddog dan sylw a'r Cadeirydd.

Soniodd BWJ fod y ffensys newydd ar ran igam ogam Rhyd Ddu wedi cael eu fandaleiddio yn ddiweddar ac roedd hyn yn siomedig o ystyried faint o waith sydd wedi ei wneud i gwblhau'r gwaith hwn. Roedd yn gwbl anghyfrifol ymyrryd â ffens a oedd yn ei lle fel nodwedd diogelwch.

Ychwanegodd AD mai dim ond yn ddiweddar y digwyddodd hyn a bod y ffens yn un newydd ac yn syml i gael ei gosod yn ei lle. Roedd y wifren strainer a'r ffensys stoc wedi'u torri mewn mannau amrywiol. Roedd hyn hyd yn oed yn fwy siomedig gan fod hon wedi bod yn waith costus mewn lleoliad anodd lle bu'n rhaid hedfan mynediad a deunyddiau.

Gofynnodd MJ a fyddai modd ystyried rhyw fath o fesurau diogelwch pe bai'n digwydd eto – roedd camerâu annibynnol ar gael.

Cadarnhaodd AD eu bod wedi trafod opsiynau gyda Swyddog Cyswllt y PC Heddlu Gogledd Cymru a'u bod yn ystyried opsiynau i fonitro hyn.

Cadarnhaodd fod mater Bwlch y Moch wedi'i gwblhau ond efallai'n wir y byddent yn ystyried wal is arall ond y byddent yn ymchwilio i hyn ac yn dychwelyd at yr aelodau.

Ychwanegodd PR eu bod wedi profi problemau o bryd i'w gilydd gyda fandaliaeth ar y llwybr ac yn ardal Rhyd Ddu yn gyffredinol a bod yr awdurdodau yn ymwybodol o hyn.

Diolchodd EN i BWJ am ei hamser a'i diweddariad heno.

9. Coed Victoria – diweddariad ar Lanberis

Dywedodd PR ei fod wedi bod yn cynnal deialog gyda thri pherchennog tir ynghylch yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus hyn sy'n rhedeg drwy goetir Coed Victoria ac nad ydynt yn hawdd eu cyrraedd ac sy'n destun cwynion.

Pe byddent yn gallu cysoni'r llwybrau hyn, yna byddent yn ddewisiadau eraill ar gyfer cerdded gyda'r nos a digwyddiadau i osgoi anawsterau yn Victoria Terrace a gallent ddefnyddio'r llwybr hwn fel dewis amgen ac osgoi Victoria Terrace. Nid oedd unrhyw gynlluniau i symud dim byd heblaw darparu'r dewis arall hwn a byddai'n dal i fod yn ddewis i bobl. A byddai llwybr Llanberis yn parhau fel y prif llwybr bob amser.

Roedd y PC, ar y cyd â CG, wedi cytuno y dylid gwneud gwelliannau i'r llwybr/llwybrau presennol, sydd wedi'u lleoli ar draws y ffordd o Westy'r Victoria.

Gyda chymorth y PC roedd torri coed conwydd (yn anfwriadol) wedi gwneud y safle'n fwy hygyrch ac wedi datgelu'r llwybr gwreiddiol – yn seiliedig ar yr HTC gwreiddiol. Fodd bynnag, roedd angen symud rhywfaint o'r HTC presennol i greu gwell llinell dan draed ond mae'n ymarferol. Er y gallai hyn fod yn gostus, byddai'n werth chweil yn y tymor hir.

Gofynnodd TJ a oedd y mynediad i'r llwybrau yn gyfleus ac yn ddiogel.

Atebodd PR fod palmant ar ochr ogleddol y ffordd - gyferbyn â maes parcio Gwesty'r Victoria a bod ymyl sylweddol ar yr ochr ddeheuol. Pe byddai hyn yn cael ei gymeradwyo yna byddent yn trafod yr agwedd hon gyda CG.

Byddai ailgyfeirio digwyddiadau i'r ardal hon yn arbennig yn osgoi aflonyddwch sylweddol o ganlyniad i weithgareddau gyda'r nos yn enwedig oherwydd sŵn a goleuadau.

Dywedodd RP y byddai hyn yn fanteisiol iawn i'r gymuned leol ond byddai angen ei hysbysebu unwaith y byddai wedi'i gwblhau.

Dywedodd PR y byddai'r PC yn cychwyn ar gryn dipyn o wybodaeth ar gyfer trefnwyr digwyddiadau unwaith y byddai hyn wedi'i gwblhau.

Byddai'n adrodd yn ôl i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol pan fyddai map wedi'i addasu ar gael a bod posibilrwydd o ymweliad safle.

10. Eitemau argymhellir ar gyfer y cyfarfod nesaf

- i) CAMS System Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- ii) Diweddariad Coed Victoria
- iii) Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr newydd – Jonathon Cawley
- iv) Awgrymodd MJ y Mater Coed Y Brenin

11. Unrhyw fater arall – I'w gadw mor fyr â phosib ac yn gyfan ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

i) Eglurodd DJ fod Cyngor Conwy yn cynllunio, fel rhan o'u toriadau cyllidebol i gau llawer o toiledau gwledig. Roedd hyn yn cynnwys y bloc toiledau yn y pentref a oedd wedi'i leoli ger yr afon ac a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan lawer o ganŵ-wyr (gan gynnwys Canolfannau Awyr Agored) fel eu pwynt mynediad i afon Conwy i lawr i Rydlafair. Mae hwn yn llwybr mynediad i ddŵr poblogaidd a grëwyd ac a hyrwyddwyd gan y PC yn 2013.

Roedd y cyfleuster hwn nid yn unig yn bwysig i'r pentref ond roedd hefyd yn rhan bwysig o seilwaith hamdden o fewn y PC. Gofynnodd a oedd yn bosibl i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol ystyried hyn gyda golwg ar ysgrifennu at CBSC i amlygu'r sefyllfa hon. Byddai cau yn achosi anawsterau i bawb gan gynnwys padlwyr sy'n defnyddio'r toiledau a'r maes parcio.

Gofynnodd EN a oedd gan yr aelodau unrhyw farn ar hyn.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai PR ysgrifennu at CBSC i fynegi eu barn bod hwn hefyd yn adnodd pwysig ac y dylai'r bloc toiledau hwn aros ar agor o ystyried y mynediad ychwanegol at ddeinamig dŵr.

Byddai PR yn drafftio llythyr i'r Cadeirydd ei ystyried a'i anfon.

ii) Crib Y Ddysgl (PR)

Soniodd PR eu bod wedi bod mewn cysylltiad â Thîm Achub Mynydd Llanberis a'u bod wedi crybwyll bod nifer o ddigwyddiadau wedi bod ar lwybr sy'n arwain o Fwlch Crib Coch i Grib Y Ddysgl. Roedd hyn yn broblematic gan ei fod wedi peri i bobl ddysu o dan y C y Dd ac yna yn eu cyfyng-gyngor yn ceisio tracio yn ôl i igam ogam Trac Pyg na chafodd ei argymhell o ystyried ei dirwedd a bod nifer o ddigwyddiadau wedi digwydd.

Roeddent wedi gofyn i'r PC a oedd gennym unrhyw atebion posibl i hyn neu ryw fath o reolaeth ar y safle y gellid ei ddefnyddio i gael pobl i ddefnyddio llwybro cywir CyDd yn hytrach na cheisio mynd *off piste* gan eu harwain i anawsterau difrifol posibl.

Roedd swyddogion (gan gynnwys ef ei hun) wedi edrych ar hyn ar y safle ac wedi dod i'r casgliad, er bod yr opsiynau'n gyfyngedig, efallai y byddai lle i godi piler neu arwydd ychwanegol wrth y sawl sy'n dod i mewn i'r llwybr oddi ar y piste hwn yn nodi'r llinell gywir. Dangosodd fraslun o biler sylfaenol – *yn seiliedig ar arddull tŷ piler i'r Wyddfa* y gallent ei hargymhell i'r TAMLI fel un opsiwn y tro nesaf y byddent yn cyfarfod.

Roeddent hefyd wedi dod i'r casgliad bod angen gwybodaeth ychwanegol hefyd ar wefan y PC ar gyfer Crib Coch ond hefyd y dylem gynnwys CyDd. Tan y blynyddoedd diwethaf roedd hyn wedi'i osgoi er mwyn peidio â chael ei weld yn hyrwyddo'r hyn sy'n sgramblo Gradd 1. Mae'n bosibl bod cerddwyr a oedd yn anghyfarwydd â Chrib Coch hefyd wedi tanamcangyfrif anhawster ychwanegol CYDd.

Ychwanegodd JG fod golygfa o'r Wyddfa tuag at CyDd ar ddiwrnod clir yn dangos faint o lwybrau plethedig oedd wedi ymddangos yn y blynyddoedd diwethaf a bod hyn yn broblem i'r TAMLI.

Cytundd PR gyda barn JG ond roedd yn ymddangos mai'r prif bwynt o ran anhawster oedd y sefyllfa yr oedd wedi'i nodi'n gynharach lle'r oedd diffyg penderfyniad pobl yn broblematic ac yn eu harwain i drafferthion ymhellach ymlaen – y dasg oedd ceisio atal penderfyniadau gwael bryd hynny.

Ond byddai'n bwynt i'w drafod.

Gofynnodd MJ a fyddai'r PC yn dod yn atebol trwy osod arwyddion.

Dywedodd PR ei fod o'r farn bod hyn yn annhebygol gan fod y PC wedi gwneud y peth gorau o dan yr amgylchiadau a bod hwn hefyd yn dir mynediad CGHT lle nad oedd unrhyw atebolrwydd i dirfeddianwyr am nodweddion naturiol. Fodd bynnag, byddent yn edrych ar yr agwedd honno.

Byddai PR yn adrodd yn ôl pan gynhaliwyd eu cyfarfod.

Diolchodd EN i PR am ddod â hyn i sylw'r aelodau.

iii) Diolchodd DF i Swyddogion a Wardeiniaid y PC am eu gwaith ond nododd absenoldeb parhaus unrhyw Swyddog o CNC yn mynd yn ôl am gyfnod sylweddol.

Dywedodd PR ei fod wedi derbyn cwyn am eitem cofnodion yn ddiweddar - mynd yn ôl tri chyfarfod.

12. Dyddiad cyfarfodydd flwyddyn 2025
3ydd Chwefror, 2ail Mehefin a 6ed Hydref

Daeth EN â'r trafodion i ben. Diolchodd i'r aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniadau drwy'r flwyddyn a dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3 Chwefror 2025

.